CAERDYDD

AM BYTH

ADRODDIAD

BLYNYDDOL 2017/18

CYNNWYS

TROSOLWG
4. Y Flwyddyn Gyntaf mewn Rhifau
6. Croeso'r Cadeirydd
7. Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Gweithredol
8. Tros Caerdydd
9. Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Tîm

PROSIECTAU
11. Croesawus
17. Ffyniannus
24. Dylanwadol
26. Trosolwg Ariannol
27. Gwanwyn 2018 a thu hwnt

Cardiff Library

Y FLWYDDYN GYNTAF

TREFNWYR TACSI

Wedi cynorthwyo dros 12,500 o bobl

Wedi adrodd i'r heddlu ar 35 achlysur

FFORDD AMGEN I ROI

Bu i'r ymgyrch Ffordd Amgen i Roi a ariannwyd gan TROS CAERDYDD gyrraedd cynulleidfa o 40 miliwn

ADLONIANT STRYD

Gwylwyd ein fideo Adloniant Stryd Cystadleuaeth Chwe Gwlad y NatWest dros 160,000 o weithiau



TÎM GLANHAU

Dilëwyd dros 1000 o ddarnau gwm cnoi

Dros 2500 awr o waith ychwanegol wedi'i gwblhau

MARCHNATA

Trefnwyd yr ymgyrch Nadolig fwyaf erioed yng Nghaerdydd gan gyrraedd cynulleidfa o 5.2 miliwn ar draws y cyfryngau - teledu, radio, print, digidol a chymdeithasol

E-GYLCHLYTHYR

Darllenwyd 27 o e-gylchlythyrau gan 4600 o bobl

MEWN RHIFAU

LLYSGENHADON STRYD

9000 o ymweliadau busnes/ rhyngweithiadau
Dros 2000 o gyfarwyddiadau

HYFFORDDIANT

Hyfforddiant am ddim. Bu i bron i 120 o weithwyr o dros 25 o fusnesau TROS CAERDYDD elwa o'r cyrsiau hyfforddi hyn. Dyna arbediad cyfartalog o £2,467 ar gyfer pob un o'r busnesau hynny!

CYLCHLYTHYR

Dosbarthwyd 5000 i fusnesau bob chwarter



GWEFAN

Bu 7000 o ymweliadau â'r wefan

Cofnodwyd 21,000 o ymweliadau tudalen

Y WASG A CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

14 o ddarllediadau

Sicrhawyd gwerth £152,500 o sylw gan y cyfryngau

O'i gymharu, fe wnaeth AGB Gogledd Iwerddon, 'Belfast One', sicrhau gwerth £24,421 o sylw yn ystod eu blwyddyn gyntaf ac roedd AGB mwyaf y DU y tu allan i Lundain, Leeds, wedi sicrhau gwerth £60,000

CYMDEITHASOL

Derbyniwyd 983,100 o argraffiadau Trydar

Simon Phillips
Cadeirydd y Bwrdd

Adrian Field
Cyfarwyddwr Gweithredol

CROESO'R CADEIRYDD

Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, mae TROS CAERDYDD yn cwrdd â gweledigaeth ac uchelgais y cynllun busnes ac mae'n dangos ei hun yn fenter ddynamig sy'n helpu Caerdydd i ffynnu.

FOR Caerdydd oedd y grym y tu ôl i nifer o brosiectau eofn ac arloesol, trwy dargedu buddsoddiadau allweddol i symud canol y ddinas ymlaen.

Fel un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, mae Caerdydd yn bwerdy economaidd a gydnabyddir fel un o brif gyrchfannau'r wlad ar gyfer busnes a phleser - mae angen atgyfnerthu, dathlu ac ehangu ei hapêl, ei llwyddiannau a'i chryfderau ac mae'r AGB yn gweithio'n galed i gyflawni hyn.

Mae TROS CAERDYDD wedi dangos, yn y flwyddyn gyntaf, ei fod yn llesol ac yn sicrhau newid cadarnhaol. Mae ei gyflawniadau wedi ei seilio ar gyfuniad o waith caled tîm yr AGB, buddsoddiad bwriadus a chyfranogiad rhagweithiol busnesau a sefydliadau ledled y ddinas.

Wrth symud ymlaen i flwyddyn dau a thu hwnt, bydd TROS CAERDYDD yn parhau i adeiladu ar hyn trwy gydweithio ar draws pob sector i wireddu'r cynlluniau a'r prosiectau uchelgeisiol a chyffrous a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ganol dinas Caerdydd.

Simon Phillips
Cadeirydd y Bwrdd

CYFLWYNIAD Y CYFARWYDDWR GWEITHREDOL

FDechreuodd TROS CAERDYDD yn swyddogol ym mis Rhagfyr 2016. Ers hynny mae'r tîm wedi cael blwyddyn gynhyrchiol tra'n gweithio ar brosiectau ar draws ein meysydd allweddol: 'Gwella', 'Ffynnu' a 'Dylanwadu' a symud ymlaen ar y mentrau a nodir yn ein cynllun busnes pum mlynedd.

Rydym yn frwd dros ganol ein dinas, i greu profiad o safon uchel i bob ymwelydd, bod yn gyrchfan o ddewis yng Nghymru ac i ddenu buddsoddwyr a busnesau newydd. Mae datblygiad y Sgwâr Canolog bellach yn mynd rhagddo gyda'r BBC i fod yn gwbl weithredol erbyn 2019. Yn ddiweddar mae Brains wedi cyhoeddi eu cynllun i ddatblygu eu safle, sef y cynllun adfywio mwyaf a welwyd erioed yng Nghymru. Fe all y cytundeb gwerth £1.2bn ar gyfer Rhanbarth Dinesig Caerdydd drawsnewid economi De Ddwyrain Cymru, gan gynnwys y cynllun Metro newydd a datblygu'r gyfnewidfa drafnidiaeth. Dim ond dyrnaid yw rhain o'r datblygiadau sy'n chwyldroi tirwedd Caerdydd ac ar y cyd â phrosiectau eraill sydd ar y gweill rydym yn gweld adfywiad cyffrous yng Nghaerdydd.

Ein hamcan cyffredinol yw creu Canolfan Ddinesig sy'n groesawgar, yn fywiog, yn ddylanwadol, yn ddeniadol i ymwelwyr, i weithio a byw ac sy'n rhwydd i'w chyrraedd o unrhyw le yng Nghymru.

Fel rhan o'n prosiect 'Ffynnu' eleni, fe gyflwynom yr ymgyrch Nadolig fwyaf a welwyd yng Nghaerdydd gan gyrraedd cynulleidfa o 5.2 miliwn. Gwnaethpwyd hyn mewn partneriaeth a 'Croeso Caerdydd' a welodd gynnydd ymweliadau, "heb ei debyg," i'w gwefan o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgyrch. Daeth Cynghrair y Pencampwyr i Gaerdydd ym Mehefin 2017 ac fe gawsom gryn adborth gan ein haelodau ynglŷn a'r modd y cyfathrebodd y trefnwyr gyda'r ymwelwyr a'r busnesau. Rydym am i fusnesau wybod ein bod wedi eu clywed. Ysgrifennais adroddiad yn manylu ar argymhellion ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fawr fel hyn. I'r dyfodol bydd y Bwrdd a minnau yn sicrhau bod gan yr AGB sedd wrth y bwrdd pan fydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed, bod y ddinas yn ddiogel a bod eich busnes yn elwa cymaint ag y bo'r modd o'r effaith economaidd.

Roedd ein prosiectau 'Dylanwadol' Blwyddyn Un yn cynnwys darparu hyfforddiant am ddim ar gyfer bron i 120 o weithwyr o dros 25 o fusnesau TROS CAERDYDD. Fe wnaed arbediad cyfartalog o £2,467 ar gyfer pob un o'r busnesau hynny!

Yn dilyn adborth helaeth gan ein busnesau rydym wedi buddsoddi mewn cynllun peilot, ar y cyd â BT Openreach, i ddod â band eang cyflym iawn i Chwarter y Castell. Gall oddeutu 250 o fusnesau elwa o hyn ac rydym eisoes wedi clywed gan nifer o fusnesau oedd yn awyddus i adleoli oherwydd cyflymder band eang gwael ond sydd bellach am aros yng nghanol y ddinas - dyna newyddion gwych.

Ein prif brosiect 'Croesawu' ym Mlwyddyn Un oedd cyflwyno wyth o Lysgenhadon Stryd yn ardal TROS CAERDYDD. Eu prif rôl yw cyfarch twristiaid a rhannu gwybodaeth am uchafbwyntiau ein Dinas. Maent hefyd yn adrodd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion amgylcheddol ac yn ymgysylltu â busnesau.

Roeddem wrth ein bodd gyda llwyddiant ein menter lleihau troseddau busnes, 'Caerdydd Yn Erbyn Troseddau Busnes' (CETB), gyda dros 150 o fusnesau yn ymuno â chynllun radio 'CityNet' yn ystod ei wythnos gyntaf. Mae'r busnesau'n llawn canmoliaeth am y prosiect hwn, ei ragoriaeth a'r gwahaniaeth y mae wedi ei wneud i'w gwaelodlin o'i gymharu â chynlluniau eraill y maent wedi bod yn rhan ohonynt yn y gorffennol.

Mae TROS CAERDYDD yn cael ei redeg gan fusnesau, ar gyfer busnesau, ac rydym am annog ein holl aelodau sy'n talu lefi i gymryd rhan trwy gyflwyno adborth i ni.

Rydym yn edrych ymlaen yn arw tuag at ddechrau ein hail flwyddyn a symud ymlaen i gyflawni ein cynllun busnes pum mlynedd. Os hoffech drafod gweithgaredd TROS CAERDYDD ymhellach, mae croeso i chi gysylltu ag aelodau'r tîm.

Adrian Field
Cyfarwyddwr Gweithredol

TROS CAERDYDD

Sefydlwyd TROS CAERDYDD gan grŵp craidd o fusnesau a rhan ddeiliaid er mwyn hyrwyddo newid cadarnhaol ac i greu cymuned hyfyw a ffyniannus i bawb. Yn dilyn cyfnod datblygu o ddwy flynedd, cawsom ein sefydlu ym mis Rhagfyr 2016 ac erbyn hyn rydym yn cynrychioli dros 750 o fusnesau unigol.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod canol y ddinas yn Groesawgar, yn Fywiog ac yn Ddylanwadol yn ogystal a bod yn lle proffidiol i wneud busnes. Mae ein prosiectau hirdymor a'n mentrau rheoli yn gwella'r ardal er budd pawb, a bydd ein cefnogaeth i fusnesau yn sicrhau bod yr ardal yn parhau i ffynnu.

Rydym yn gwmni di-elw cyfyngedig trwy warant ac rydym yn cael ein cyllido gan fusnesau fel Ardal Gwella Busnes, neu AGB, model sy'n bodoli mewn dros 290 o leoliadau ledled y wlad. Pwysleisir bod pob AGB wedi'i deilwra i weddu i'w amgylchedd, anghenion y rhan ddeiliaid lleol ac mae pob cynllun busnes yn wahanol i adlewyrchu heriau penodol yr ardal.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Simon Phillips	Marks and Spencer – Cadeirydd y Bwrdd
Marie Fagan	Hilton Hotels – Is-gadeirydd y Bwrdd
Dan Langford	Acorn Recruitment – Cadeirydd yr Is-bwyllgor Marchnata
Steven Madeley	St David's – Cadeirydd y Grŵp Prosiectau
Andrews Phillips	Savills
Bruno Nunes	Peppermint Bar
Cliff Vanstone	John Lewis
Huw Llewellyn	Admiral
Ken Poole	Cyngor Caerdydd
Mark Brace	Comisiynydd Troseddau Cynorthwyol, Heddlu De Cymru
Natasha Williams	Brains
Neil Wicks	Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Nick Newman	Y Ffilharmonig
Phil Sheeran	Arena Motorpoint
Ruth Ryder	Prifysgol De Cymru
Steven Salamon	Wally's Deli (ymddiswyddodd ym mis Ionawr 2018)

TÎM Y SWYDDFA

Adrian Field	Cyfarwyddwr Gweithredol
Carolyn Brownell	Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu
Nigel Griffiths	Rheolwr Gweithrediadau
Ian Tumelty	Rheolwr Lleihau Troseddau Busnes
Emily Cotterill	Cydlynydd Prosiect

TÎM LLYSGENHADON STRYD

Louise O'Hanlon

Jodie Sullivan

Jordan Tucker

Tom Smith

Alex Grove

Mike Lewis

Tasia Stephens

Olivia Insole

PROSIECTAU



CROESAWUS

3 MILIWN DROS 5 MLYNEDD

TÎM LLYSGENHADON STRYD

Ym mis Ebrill, cyflwynodd yr AGB ychwanegiad cyffrous i'r ddinas, sef tîm, wedi ei frandio, o Lysgenhadon Stryd. Mae'r tîm cyfarfod a chyfarch proffesiynol, o 8, o safon uchel. Maent yn darparu croeso cynnes, cyfeillgar a gwybodus i ymwelwyr, trigolion a busnesau fel ei gilydd.

Maent yn gweithredu fel arwyddbyst dynol, gan ychwanegu gwerth gyda'u gwybodaeth arbenigol am y ddinas. Maent yn darparu dolen ar y strydoedd i fusnesau'r AGB, gan gynnal ymweliadau darparu gwybodaeth am weithgareddau TROS CAERDYDD. Maent, hefyd, yn helpu i lywio gwybodaeth am broffil cwsmeriaid a manylion hanfodol am sut mae'r ddinas yn cael ei defnyddio.

Ar gyfartaledd mae'r Llysgenhadon yn **ymgysylltu â 750 aelod o'r cyhoedd bob mis**

Fe gynorthwywyd **dros 2000 o bobl i ddod o hyd i'r lleoliad yr oeddent yn chwilio amdano**

Maent yn cwmpasu holl dirwedd yr AGB gan **gerdded, ar gyfartaledd, o 10 -12 milltir y dydd**

"Roeddwn i yng Nghaerdydd ar gyfer rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr y Merched a hoffwn ddiolch i bob un o'ch Llysgenhadon am roi arweiniad i bawb ohonom, oedd ar goll, i'r ddinas hardd hon. Diolch yn fawr iawn i Louise, am fy helpu lawer i fynd a dychwelyd yn ôl i'r stadiwm!"

Ella Souchet, Ffrainc

"Rwyf mor ddiolchgar ichi am y camau a gymerwyd gennych chi a'ch Llysgenhadon - mae'n amlwg yn dangos manteision yr AGB"

Peter Beckerley,
Peter Beckerley, Cyfarwyddwr gyda Cyfreithwyr Rausa Mumford



FFORDD AMGEN I GYFRANNU

Rydym yn ymgysylltu a'n busnesau'n ddyddiol a'r ymholiad neu'r maes pryder mwyaf cyffredin yw'r cynnydd sylweddol mewn cardota a digartrefedd ar strydoedd Caerdydd. Mae digartrefedd yn fater cymhleth ac yn fater na all sefydliad unigol fynd i'r afael ag o. Dyna pam yr ydym wedi trefnu i grŵp o sefydliadau allweddol ddod at ei gilydd i ddarparu dull gwahanol i bobl hael Caerdydd roi arian i achub pobl rhag digartrefedd, a enwir yn briodol 'Give DIFFerently'.

Mae'r cynllun, sy'n cael ei ariannu gan TROS CAERDYDD, yn darparu cyfle i gyfrannu trwy neges destun. Mae hyn yn galluogi trigolion ac ymwelwyr i roi i'r rhai sy'n cardota, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Bydd y rhoddion yn mynd i gronfa sy'n cael ei rheoli gan Gymdeithas y Cymunedau yng Nghymru. Gall unigolion bregus gael mynediad at grantiau bach – grantiau all newid eu bywydau ar adegau tyngedfennol. Gall hyn fod ar gyfer dillad, trafnidiaeth i gyfweliad neu nwyddau tŷ ar gyfer tenantiaeth newydd. Bydd pob dimau goch yn mynd tuag at osgoi digartrefedd.

Mae'r fenter yn cael ei chefnogi gan wasanaethau rheng flaen Caerdydd, gan gynnwys The Big Issue Cymru, Cyngor Caerdydd, Huggard, Byddin yr Iachawdwriaeth, Heddlu De Cymru a'r Wallich.

Gwelwyd y lansiad ffurfiol ym Mawrth 2018 gyda TROS CAERDYDD mewn partneriaeth a Gleision Caerdydd yn dod ag un o chwaraewyr mwyaf dylanwadol y DU, Sam Warburton yn rhan annatod o'r ymgyrch. Fe ddaethom a thechnoleg na welwyd o'r blaen yng Nghymru i ffenestr uned wag ar yr Aes i ddangos clipiau fideo pwrpasol o Sam yn annog pobl i ymuno a'r ymgyrch ac i gyfrannu £2 trwy dechnoleg di-gyffwrdd. Canlyniad hyn oedd cyfraniadau o 40 million.

> "Mae'r ymgyrch #giveDIFFerently yn hollol ysbrydoledig - menter wirioneddol wych a mawr ei hangen. Bravo a diolch i chi. Gwirioneddol wych. "
>
> **Bizzy Day,**
> The Other Room'l

TÎM GLANHAU

O fewn hanner blwyddyn fe ddadorchuddiodd TROS CAERDYDD eu bwriad i gynnal arbrawf chwech mis gyda tîm glanhau dwfn pwrpasol. Yn hytrach na chanolbwyntio ar y croeso, eu nod fyddai gwella gweledigaeth a theimlad strydoedd canol y ddinas.

Mae Tîm Glanhau TROS CAERDYDD yn hynod weladwy ac yn darparu gwasanaeth glanhau dwys, Mae ganddynt raglen arfaethedig o lanhau dwfn mewn llefydd allweddol yn ogystal a'r hyblygrwydd i lanhau eiddo cyhoeddus a phreifat mewn ymateb i geisiadau uniongyrchol gan fusnesau.

Bu adborth trigolion a busnesau i'r tîm yn hynod gadarnhaol. Dyna pam y rhoddom ystyriaeth i barhad y gwasanaeth. Roedd yn benderfyniad hawdd, ond roeddem yn awyddus i'w ymestyn hefyd. Wedi'i lansio ym mis Mawrth, mae Tîm Glanhau TROS CAERDYDD bellach yn meddu ar ddwy fan, un i chwistrellu a'r llall i 'sgubo'r ffordd. Maent yn darparu gwasanaeth glanhau yn y fan a'r lle i fusnesau ac maent yn rhagweithiol pan fyddant yn gweld cyfle i roi sglein ar y ddinas.

Maent wedi cael effaith unionsyth mewn llefydd allweddol yng nghanol y ddinas – gan ddelio a 300 o geisiadau glanhau a cwblhau 2500 o dasgau ychwanegol.

"Roeddwn i eisiau tynnu sylw at y gwaith ardderchog y mae'r tîm wedi bod yn ei wneud wrth lanhau'r strydoedd.

Mae'n werth ei weld, diolch i chi. Gadewch i ni obeithio y bydd pobl yn eu parchu ychydig yn fwy nawr ac y gallwn barhau i edrych yn syfrdanol!!! "

Margaret Waters,
Park Plaza

BUDDSODDIAD 'MILL LANE'

Mae Mill Lane' yn rhan eiconig o dirlun Caerdydd. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau'r ardal i sicrhau nifer o welliannau:

- Gwella strydlun yr ardal
- Dileu dodrefn stryd dianghenraid
- Mynd i'r afael â phroblem biniau masnachol
- Hwyluso symudiad cerddwyr o un pen i'r llall
- Manteisio ar y cyfle i gynyddu seddau awyr agored i'r busnesau
- Yn olaf, amlygu Mill Lane gydag arwyddion ar y ffiniau i helpu marchnata'r lle fel cyrchfan

Am wybodaeth ar gynnydd y prosiect cadwch lygad ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

LANSIAD CAERDYDD YN ERBYN TROSEDDAU BUSNES (CETB)

Ar sail adborth busnesau, lansiwyd ymgyrch Caerdydd Yn Erbyn Troseddau Busnes, ym mis Ionawr 2018 yn Yr Hen Lyfrgell. Mynychodd dros 80 o gynrychiolwyr busnes.

Rhan o CETB yw'r cynllun radio diogel, 'CityNet', ac yn yr wythnos gyntaf ymunodd dros 145 o fusnesau a'r fenter. Roeddem yn awyddus i sicrhau bod y cynllun yn gost-effeithiol i'n busnesau ac mae'n cynnig arbediad posibl o fwy na £ 200 y radio bob blwyddyn. O ganlyniad, rydym yn hyderus iawn bod hyn yn cynrychioli gwerth ardderchog am arian, yn dangos ein hymrwymiad i leihau eich gorbenion tra'n sicrhau nad yw'r gost yn eich rhwystro rhag cael radio.

Ym mis Ionawr cafodd Ian Tumelty ei benodi fel Rheolwr Lleihau Troseddau Busnes newydd. Ei rôl yw gweithio gyda busnesau i gynnig cyngor a hyfforddiant ar droseddau busnes, sicrhau bod pob gweithgaredd troseddol yn cael ei gofnodi a'i ddilyn a sicrhau bod y cynllun radio CABC yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn arwain ar ein huchelgais i ennill achrediad Baner Porffor.

Am fwy o wybodaeth ar ymuno â CETB a chael radio Motorola ar gyfer eich busnes, ewch i'n gwefan benodol www.cardiffabc.com

ACHREDIAD Y FANER PORFFOR

Mae'r Faner Porffor yn gynllun a gydnabyddir yn genedlaethol ac a drefnir gan y Gymdeithas Rheoli Tref a Dinas i sicrhau diogelwch yr economi gyda'r nos. Mae TROS Caerdydd wedi cychwyn y broses o gyflawni'r safonau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y meincnodau ac yn gwella apêl Caerdydd ar draws yr economi gyda'r nos, o theatrau, darparwyr bwyd neu bartïon tros nos.

DIOGELU MYFYRWYR MEWN PARTNERIAETH A HEDDLU DE CYMRU

Bu TROS CAERDYDD yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Prifysgol Caerdydd, a Gwirfoddolwyr Myfyrwyr Caerdydd (gyda gwirfoddolwyr o bob un o sefydliadau addysg uwch Caerdydd) i ddod a Bws Diogelwch Myfyrwyr i ganol y ddinas. Bu'r bws yn gweithredu dros 16 noson rhwng 21.30 a 04.00 ar ddydd Mercher, Gwener a Sadwrn ac ar sail buddsoddiad TROS CAERDYDD roedd y bws yn gallu dyblu ei hamser gweithredu rhwng diwedd cyfnod y Glas a Nadolig 2017.

Er mai prif swyddogaeth y bws yw diogelu myfyrwyr, mae hefyd wedi cynorthwyo nifer o aelodau eraill o'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd bregus. Mae'r bws yn lleihau galwadau ac yn rhyddhau cerbydau'r gwasanaethau brys, maent mewn cyswllt cyson â staff y Ganolfan Trin Alcohol yn ogystal â bod ar gael i gefnogi busnesau economi gyda'r nos.

TREFNWYR TACSI A RHENG NEWYDD

Dros 2017 cyflwynodd TROS CAERDYDD Drefnwyr Tacsi ychwanegol ar gyfer digwyddiadau allweddol megis y Gemau Chwe Gwlad, Gemau Rhyngwladol yr Hydref, Cynghrair y Pencampwyr a digwyddiadau cerddorol megis Coldplay. Creom, hefyd, reng tacsi ychwanegol yn Westgate Street.

Ym mis Ionawr 2018 cyhoeddodd Cyngor Caerdydd eu bod am atal arian y Trefnwyr Tacsis o 31 Mawrth 2018.

www.FORCardiff.com

ADDURNO A BLODAU

Ni fu arddangosfeydd blodau tymhorol yn y ddinas ers sawl blwyddyn. Ar gyfer haf 2017 daeth TROS CAERDYDD a 30 o blanwyr tair haen a 380 o fasgedi crog i'w gosod o gwmpas canol y ddinas. Mae'r gwanwyn hefyd wedi ei sirioli trwy ail-blannu'r gwelyau ar lain canol Churchill Way.

NODDI PASTORIAID STRYD

Ers 2008, mae'r Pastoriaid Stryd wedi derbyn croeso ar strydoedd y ddinas bob nos Wener a Sadwrn. Erbyn hyn mae dros 60 o Bastoriaid Stryd yn gweithio yng Nghaerdydd. Yn 2017 rhoddasant fwy na 1,300 o boteli o ddŵr, 1,000 o barau fflip fflop ac fe dynnwyd 4,000 o wydrau a photeli oddi ar y strydoedd. Mae'r Pastoriaid yn gweithio bob penwythnos gan wneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel yn ystod eu noson allan. Roedd y cynllun amhrisiadwy yma dan fygythiad o ddifodiad oherwydd diffyg cyllid hyd nes i TROS Caerdydd gefnogi'r rhan hanfodol yma o economi gyda'r nos gyda buddsoddiad o £20,000.

MARSHALS NOS

Ym mis Ebrill 2018, penderfynodd TROS CAERDYDD gyflwyno tîm o ddeg Marshal Nos i wella profiad pobl yng nghanol y ddinas yn ystod oriau'r nos.

Mae'r Marshal Nos yn cydweithio â phartneriaid ac aelodau CETB i atal Troseddau Busnes trwy gofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol, cysylltu â pherchnogion busnesau'r ddinas, staff drws, Pastoriaid y Stryd a'r gwasanaethau brys i sicrhau bod Caerdydd yn ddinas groesawus a diogel i ymweld â hi.

Prif rôl y Marshal Nos fydd sicrhau presenoldeb gweladwy ar nos Wener a nos Sadwrn mewn ardaloedd poblogaidd yng nghanol y ddinas. Nhw fydd yn rheoli'r tair rheng tacsi, amrywiol giwiau ac yn diogelu pobl fregus rhag niwed. Byddant hefyd yn gweithio fel llysgenhadon yn y nos, gan gynnig cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n ymweld â'r ddinas. Bydd y tîm hefyd ar gael ar gyfer digwyddiadau mawr fel gemau rhyngwladol a chyngherddau.

PROSIECT SYMUD BEICIAU WEDI'U GADAEL

Yn ystod Gorffennaf ac Awst, rydym wedi cynnal arolwg parcio a storio beiciau er mwyn deall y problemau y mae busnesau yn eu cael wrth storio'r beiciau presennol a'r galw am stondinau pellach. Daeth yn amlwg bod beiciau wedi'u gadael yn broblem yn y ddinas.

Aeth TROS CAERDYDD ati gyda Cyngor Dinas Caerdydd a Heddlu De Cymru i symud y beiciau oedd wedi'u gadael. Gostyngodd hyn y tebygolrwydd o ladrad, cynyddodd nifer y llefydd parcio gwerthfawr yng nghanol y ddinas yn ogystal a gwella golwg y ddinas i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.



FFYNIANNUS

4 MILIWN DROS 5 MLYNEDD

YMGYRCH NADOLIG YN CYRRAEDD CYNULLEIDFA O 5.2 MILIWN

Yn ein cynllun busnes roedd addewid i gydweithio â phartneriaid i adeiladu ac ychwanegu gwerth at dymor y Nadolig yng nghanol dinas Caerdydd. Ar gyfer Nadolig 2017, roeddem yn hapus i gael gweithio gyda 'Croeso Caerdydd' i gefnogi ymgyrch #CardiffsChristmas ac ymestyn cyrhaeddiad yr ymgyrch i dros filiwn o bobl ledled Cymru a Lloegr.

Heb ein buddsoddiad ni fyddai Caerdydd wedi ei hyrwyddo yn ddwyieithog ar y teledu a sianelau ar lein ITV, S4C, Sky a 'Made in Cardiff'. Hyrwyddwyd yr ymgyrch ar y radio, mewn print, yn ddigidol ac ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd. Roedd y neges yn denu pobl i ganol dinas Caerdydd i fwynhau ystod atyniadau'r wyl, y siopau, y pantomeimau a'r sglefrio ar y llain rhew.

Roeddem am wneud yn siŵr bod y Nadolig yn dechrau gyda bang, ac fe weithiom gydag Orchard (aelod o TROS Caerdydd) i gyflwyno profiad Rhith Realaeth (VR) a Realaeth Ychwanegol (AR) na welwyd o'r blaen yng nghanol y ddinas. Roedd yr AR yn rhydd i'w lawr lwytho - gêm oedd yn annog chwaraewyr i helpu Siôn Corn ddarganfod 12 anrheg coll o amgylch y ddinas gyda cyfleoedd i ennill gwobrau anhygoel ar ôl canfod y chwech cyntaf.

Capital FM oedd ein partneriaid ar gyfer y 3 profiad VR a gartrefwyd mewn uned yng Nghanolfan Dewi Sant. Roedd rhain yn cynnwys rhith frwydr peli eira, anturio ar lethrau'r Wyddfa a cyfle i helpu Santa roi trefn ar ei geirw drwg. Roeddem yn awyddus i ddarparu rhywbeth na welwyd erioed yng Nghaedydd - rhywbeth i bawb a rhywbeth unigryw ar gyfer y Nadolig.

PARTNERIAETH CROESO CAERDYDD

Mae TROS Caerdydd wedi buddsoddi mewn partneriaeth â Croeso Caerdydd. Golyga hyn bod gan bob un o'n busnesau aelodaeth o rwydwaith Ymweld, Cwrdd neu Fuddsoddi yn awtomatig heb unrhyw gost ychwanegol. Fel arfer byddai dod yn aelod o Croeso Caerdydd yn costio rhwng £ 400 - £ 1200 yn flynyddol (* ffigurau 2017).

Pwrpas Croeso Cardiff ydi cynyddu nifer yr ymwelwyr a chyflwyno rhesymau, cyfleoedd a digwyddiadau iddynt i ymweld, i gwrdd, i fuddsoddi, i lwyddo ac i fwynhau! Trwy weithio mewn partneriaeth â TROS Caerdydd a'n rhan ddeiliaid allweddol, mae'r ymdrechion cydweithredol yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac yn rhoi dewis ehangach i ymwelwyr.

MAP LLEOLIADAU CERDDORIAETH FYW

Yn dilyn llwyddiant diweddar yr ymgyrch i achub Stryd Womanby roedd yn bwysicach nag erioed i TROS Caerdydd ddathlu ac hyrwyddo lleoliadau cerddoriaeth fyw ym mhrifddinas Cymru. Roeddem wrth ein bodd yn ariannu'r mapiau dwyieithog sy'n cynnwys 30+ o ddarluniau o leoliadau cerddoriaeth fyw o bob cwr o'r ddinas a thuag at y cyrion, yn cynnwys popeth o Arena Motorpoint a Neuadd Dewi Sant i Clwb Ifor Bach a Chaffi Sully. Mae Canllaw Gig Minty ar gael am ddim yn y canolfannau, siopau ac atyniadau twristiaeth.

Ariannwyd yr argraffiad cyntaf o 15,000 o'r mapiau ond yn dilyn cefnogaeth enfawr y cyfryngau a busnesau roedd angen ail argraffiad ar unwaith. Rydym ers hynny wedi ariannu'r ailargraffiad ac, eto, mae ymateb busnesau a'r cyhoedd wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Meddai Daniel Minty, sylfaenydd Canllaw Gig Minty: "Rwy'n hynod falch o'r prosiect ac yn ddiolchgar i TROS Caerdydd am fy helpu i wneud iddo ddigwydd. Mae cerddoriaeth fyw mor bwysig i Gaerdydd, p'un a oes gennych leoliad ar gyfer 60 neu 60,000 - mae'n sicrhau bod ein bywyd nos yn ffynnu ac yn rhoi cymaint o fwynhad i bobl, Felly, roedd yn bwysig i mi ddod ag elfen o undod a dangos mewn un lle popeth yr ydym yn ei wneud o ran cerddoriaeth fyw yma yn y ddinas a'r holl leoliadau. Rwyf wrth fy modd ein bod wedi cael cymaint o adborth cadarnhaol eisoes."

CYMRU RHYFEDDOL A GWYCH - MURLUN Y TŴR DŴR GAN PETE FOWLER

I ddathlu Blwyddyn Chwedlau Cymru, bydd murlun 50 troedfedd o uchder yn cael ei osod ar adeilad eiconig (rhestredig Gradd II) y Tŵr Dŵr y tu allan i orsaf rheilffordd Canol Caerdydd. Bydd y murlun trawiadol, a osodir yn y Gwanwyn, yn rhan o daith 'Cymru Rhyfeddol a Gwych'. Bydd y daith chwech pwynt o amgylch Cymru yn tynnu ar rai o'r straeon hynod a gynhwysir yn 'Nhir y Chwedlau' (www.landoflegends.wales).

Nod y murlun fydd gwella argraff cyntaf y bobl sy'n cyrraedd Caerdydd ar y trên. Wedi ei ariannu'n rhannol gan TROS Caerdydd, cafodd y murlun ei greu gan Pete Fowler sy'n adnabyddus am gloriau eiconig albymau'r Super Furry Animals. Mae'r graffeg llachar yn ddathliad gweledol o chwedlau Cymru ac yn dystiolaeth o greadigedd y Gymru gyfoes. Bydd y murlun yn cael ei arddangos trwy gydol 2018, pan fydd Caerdydd yn croesawu ffrydiau o ymwelwyr o bedwar ban byd ar gyfer digwyddiadau megis Ras Hwylio'r Cefnforoedd, Volvo. Gwahoddodd 'Llenyddiaeth Cymru' TROS Caerdydd i gefnogi'r prosiect ac roeddem yn falch iawn i wneud hynny ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Cadw.

CYFATHREBU

Gwnaed addewid yn ein cynlluniau busnes y byddem yn cyflwyno strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr. Rydym wedi gwneud hyn yn gyntaf trwy benodi aelod staff i ddarparu gwasanaeth marchnata a chyfathrebu ac yn ail trwy fuddsoddi mewn asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus gydnabyddedig yng Nghaerdydd.

Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus
Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae nifer o storïau allweddol am fusnesau a defnyddwyr wedi'u codi gan y cyfryngau lleol a rhanbarthol - ar-lein ac mewn print. Mae ein hymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus wedi cyflawni'r canlynol:

- 68 darn mewn print/ ar-lein
- 14 o ddarllediadau
- 3.9 miliwn o gyfleoedd i'w gweld
- Gwerth £ 152,500 o sylw gan y cyfryngau. O'i gymharu, fe ddarparodd AGB Gogledd Iwerddon, Belfast One, werth £ 24,421 yn ystod eu blwyddyn gyntaf ac roedd AGB mwyaf y DU y tu allan i Lundain, Leeds, wedi cynhyrchu gwerth £60,000 gyda chyllideb o 1 miliwn yn fwy na TROS Caerdydd.

E-gylchlythyr
- Darllenwyd 27 o e-gylchlythyrau gan 4600 o bobl
- Y gyfradd agored cyfartalog yw 37.6%. 80% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant

Cylchlythyr
- Dosbarthwyd 5000 i fusnesau bob chwarter

Website
- 5,592 o ymweliadau a'r wefan
- 19,823 o ymweliadau tudalen

Cymdeithasol
- 1,700 o ddilynwyr Trydar o'i gymharu â 625 o ddilynwyr Go Southampton, AGB gyda cyllideb tebyg a bleidleisiwyd i fodolaeth yr un pryd a TROS Caerdydd..
- 983.1K o argraffiadau Trydar
- 511 o ddilynwyr fideo ar YouTube
- 22,554 o argraffiadau organig ar draws LinkedIn
- 108,553 o ddilynwyr Facebook ar draws ystod ein hymgyrchoedd
- Presenoldeb digidol ar Facebook, YouTube, Flickr a LinkedIn

Brandio
Ym mis Hydref 2017 ail-frandiwyd TROS Caerdydd i adlewyrch ein pwrpas a'n hamcan. Yn syml, rydym yn sefyll TROS Caerdydd, tros y busnesau gan sicrhau bod y ddinas yn fwy croesawus, bywiog a dylanwadol. Yn dilyn yr ail-frandio, dangosodd ein negeseuon Trydar gynnydd o 97% o ran ymdeimlad cadarnhaol.

NODDI DIGWYDDIADIADAU

Dros 2017 rydym wedi noddi nifer o ddigwyddiadau adloniant, cerddoriaeth fyw a'r celfyddydau yng Nghaerdydd. Maent yn gwneud y brifddinas yn fywiog a chyffrous. Roeddem am sicrhau bod pobl yn parhau i deithio o bell ac agos i fwynhau darpariaeth adloniadol y ddinas. Dyna, hefyd, pam y bu i ni gefnogi digwyddiadau megis BAFTA Cymru, Gwobr Iris, Llwybr y Cŵn Eira, IntroBiz ac Wythnos Gelf Mill Lane.

Roeddem wrth ein bodd gyda dylanwad ein nawdd. IRIS yw'r ŵyl ffilm LGBT mwyaf yn y byd. Hon oedd yr ŵyl fwyaf llwyddiannus yn ei hanes 11 mlynedd ac fe fu'n fodd i ddangos Caerdydd i gynulleidfa fyd-eang. Bu i BAFTA, hefyd, hyrwyddo Caerdydd yn eu holl ymgyrchoedd cyswllt cyhoeddus gan gyrraedd cynulleidfa o 436,524,438 gyda 173 o erthyglau! Llwyddodd ein nawdd i sicrhau yr adwaith gorau ar y cyfryngau torfol gan gyrraedd 70,500 a denu sylw sylweddol i'r ddinas. Noddwyd dau o Gŵn Eira gwych ar gyfer ymgyrch Tails yng Nghymru, a ddenodd 347,116 o ymwelwyr ac a gododd dros £ 121,200 ar gyfer elusen ddewisol y llwybr, sef, Tŷ Hafan.

DIGWYDDIADAU YMGYSYLLTU Â BUSNES

BRIFFIO CYNGHRAIR Y PENCAMPWYR

Cynghrair y Pencampwyr, y bu Caerdydd yn westeiwr ohoni, oedd y digwyddiad chwaraeon mwyaf a gynhaliwyd yn 2017. Er nad oedd tîm Caerdydd yn ymwneud a'r trefniadau roedd y tîm, ac yn arbennig y Llysgenhadon, yn derbyn adborth ar draws pob sector busnes bod angen gwell dealltwriaeth o effaith y digwyddiad ar ganol y ddinas.

Trefnodd TROS Caerdydd, mewn partneriaeth a'r Fforwm Trwyddedigon, i Gyngor Caerdydd, Cymdeithas Pêl-droed Cymru (FAW), Uned Gwrthderfysgaeth Eithriadol Cymru ac EVAC i annerch a chyflwyno i dros 400 o aelodau'r gymuned fusnes yn Cineworld. (Ni lwyddwyd ymateb i'r holl geisiadau gan nad oedd digon o le).

DIGWYDDIAD YMGYSYLLTU Â BUSNES

Ym mis Hydref 2017 trefnwyd digwyddiad llwyddiannus arall gan y tîm ar gyfer tros 100 o fusnesau (a rhestr aros i fynychu). Wedi'i gynnal yn y Kuku Club, Park Plaza bu busnesau a rhan ddeiliaid yn mwynhau gwydraid o win a chanapau ac fe lansiwyd enw masnachu newydd cwmni TROS Caerdydd ynghyd â nifer fawr o brosiectau cyffrous.

LANSIO CAERDYDD YN ERBYN TROSEDDAU BUSNES (CETB)

Ein digwyddiad diweddaraf i aelodau, ym mis Chwefror 2018, oedd lansiad CETB. Cafodd bron i 100 o gynrychiolwyr economi gyda'r nos, manwerthu, hamdden a bwyd a diod eu casglu yn yr Hen Lyfrgell i gael gwybod mwy am y fenter atal troseddau busnes newydd a system radio 'CityNet'. Yn yr un modd a'n digwyddiadau eraill, roedd yr ystafell yn orlawn ac roedd pawb a fynychodd yn werthfawrogol iawn.

Diolch yn fawr iawn i'r aelodau a'n rhan ddeiliaid a fynychodd ein digwyddiadau blwyddyn gyntaf. Byddwn yn cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau pellach ar gyfer ein haelodau yn ystod 2018/19 ac fe fyddwn yn awyddus i'n holl aelodau gael cyfle i fynychu ac i gwrdd a'r tîm a'r Bwrdd. I sicrhau eich bod yn gwybod pryd y byddant yn cael eu cynnal gallwch ddilyn ein sianelau cyfryngau cymdeithasol, ymuno a'n e-gylchlythyr ar ein gwefan neu trwy holi'r tîm Llysgenhadon.

ADLONIANT STRYD

UNiDAYS

Dyddiau'r gemau rhyngwladol ydi dyddiau prysura'r flwyddyn yng nghanol y ddinas. Ar yr achlysuron yma rydym yn awyddus i'r ddinas gael ei gweld ar ei gorau. Rydym eisoes yn darparu gwasanaeth glanhau ychwanegol a trefnwyr tacsi i sicrhau edrychiad glandeg a diogelwch y cyhoedd ond, y tro yma, roeddem am gael rhywbeth a fyddai'n hwyl hefyd! Dyma pam y bu i ni gydweithio gyda 'Unidays,' darparwyr cerdyn prisiau gostyngol y myfyrwyr. Penderfynwyd cynnal gêm rygbi y tu allan i Ganolfan y Capitol i ddiddanu'r trigolion a'r ymwelwyr. Llwyddodd yr ymgyrch cyhoeddusrwydd i gyrraedd cynulleidfa o fwy na 350,000 ac i ddenu pobl i ganol y ddinas.

"Ein cymhelliant yn 'UNiDAYS ydi galluogi myfyrwyr i gael profiadau o ansawdd am y pris gorau. Roedd y cyfle i weithio gyda TROS Caerdydd ar y gemau giamocs rygbi ar ddyddiau'r gêm - i ddenu ac i ddiddanu cymuned myfyrwyr y ddinas, yn berffaith. Gwyddom ar sail profiad gweithio gydag AGB eraill, ar hyd a lled y wlad, pa mor effeithiol ydi'r partneriaethau yma. Er hyn fe fu i lwyddiant ein partneriaeth gyda TROS Caerdydd ragori ar ein disgwyliadau.

Hwn oedd un o'n digwyddiadau mwyaf llwyddiannus – erioed, gyda cannoedd o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn ystod y dydd. Roeddem hefyd wrth ein boddau bod niferoedd yr ymwelwyr wedi cynyddu."

Mai Fenton
EMEA Marketing Director

CYSTADLEUAETH Y CHWE GWLAD - NATWEST

Yn ystod gemau'r Chwe Gwlad, ym Mawrth 2018, trefnodd TROS Caerdydd adloniant i ddiddanu ymwelwyr a chanol y ddinas. Roedd yr adloniant o amgylch Yr Aes, Stryd Westgate, St Mary Street, High Street, Hot Strings Cafe, the Kicking Cage, Fan Makeover, Comedy Coaches, Rugby Giants, Barracwda a Hapsley Hernias. Roedd yn adloniant yn ychwanegu'n wych at yr awyrgylch ac yn rhywbeth y byddwn yn awyddus i'w ailadrodd ar adegau eraill ar draws canol y ddinas.

BYRDDAU TENIS BWRDD

Roeddem am ddod ac ychydig o hwyl i strydoedd Caerdydd dros yr haf trwy osod dau fwrdd ping pong newydd ar y 'Friary' yng nghanol dinas Caerdydd.

Cyflwynodd yr AGB y byrddau newydd i wneud ymarfer corff a gweithgareddau awyr agored yn fwy hygyrch i dwristiaid a siopwyr. Mae llawer wedi bod yn awyddus i godi'r batiau a chwarae ychydig o gemau ar eu ffordd o gwmpas y brifddinas. Mae'r byrddau, bellach, wedi eu symud i Ganolfan y Capitol ac yn cael eu mwynhau trwy gydol y flwyddyn!

PROSIECTAU ANNIBYNNOL

Rydym yn arbennig o gefnogol i fusnesau annibynnol Caerdydd ac fe gredwn eu bod yn greiddiol i hunaniaeth a delwedd y ddinas. Dyma pam yr oedd y Gweithgor, wrth lunio'r cynllun busnes, yn awyddus i glustnodi dyraniad o £100,000 y flwyddyn ar gyfer ein busnesau annibynnol. Nid yw hyn wedi digwydd yn yr 'AGB' eraill. Mae'n ein gwneud yn unigryw ymhlith dinasoedd eraill ac yn dangos ein hymrwymiad i'r sector bywiog yma.

MAP YMGOLLI YNG NGHAERDYDD

Un o'r prosiectau cyntaf y bu i TROS Caerdydd fuddsoddi ynddo oedd Map Ymgolli yng Nghaerdydd. Mae'r map, sydd wedi'i ddarlunio'n hyfryd, yn annog pobl i greu eu hantur eu hunain ac i ymgolli yn eu llwybr annibynnol unigryw.

WRIGGLE – AELODAETH GOSTYNGOL

Mae Wriggle yn ymroddedig i ddod o hyd i'r sefydliadau bwyd a diod annibynnol gorau sy'n cynnig arbedion unigryw. Maent yn cynnig cyfle i'r busnesau gael eu hyrwyddo i ddegau o filoedd o bobl sy'n frwdfrydig am siopa a chefnogi busnesau annibynnol.

Fel rhan o ymrwymiad yr AGB i fusnesau annibynnol, rydym wedi negodi cyfradd gostyngol i fusnesau bwyd a diod yr AGB i fod yn rhan o'r gweithgaredd hyrwyddol yma ac i greu cynigion pwrpasol i roi hwb i fasnachu a cynyddu'r troed nod.

DIRGELWCH Y SÊR FWYTAWYR

Ym mis Medi 2017 trodd canol Caerdydd yn gêm bwrdd go iawn. Daeth llu o dditectifs amatur i'r ddinas i ddatrys Dirgelwch y Sêr Fwytawyr. Aeth eu hymholiadau a nhw trwy yr AGB, gan agor rhannau newydd o'r ddinas ac ardaloedd masnachol diarffordd. Mae'r digwyddiad, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â 'Casebook Events', eisoes yn boblogaidd mewn lleoliadau ledled Lloegr, ond daeth TROS Caerdydd a'r fenter i Gymru am y tro cyntaf gyda dros 200 o bobl yn cymryd rhan yn yr hwyl.

STIWDIO 16

Daeth grŵp o fusnesau annibynnol rhagweithiol i holi am nawdd gan TROS Caerdydd i sefydlu Stiwdio 16 a gwefan. Grŵp rhwydweithio anffurfiol ydi Stiwdio 16, sy'n cyfarfod bob chwarter. Eu nod fydd dod ac entrepreneuriaid lleol at ei gilydd i esblygu rhwydwaith o fusnesau annibynnol sy'n cydweithio, cyfeirio, cymdeithasu a cefnogi ei gilydd; gan greu amgylchedd busnes mwy amlwg a phroffidiol yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos.

RHODD GERDYN

Ar ddechrau Rhagfyr fe lansiwyd un o'n prosiectau mwyaf cyffrous – rhodd gerdyn penodol ar gyfer busnesau annibynnol. Mae'r prosiect yn agored i'n haelodau a'r busnesau sydd o dan y gwaelodlin lefi. Y nod yw annog pobl i wario yng nghanol y ddinas ac i amlygu ein busnesau annibynnol.

Pe hoffech ymuno â'r cynllun, yr unig amod yw bod yn fusnes annibynnol yng nghanol y ddinas. Byddwch wedyn yn rhan o ymgyrch farchnata sy'n hyrwyddo'r cerdyn trwy gyfrwng print, y cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion Bws Caerdydd a gwefan benodol www.cardiffgiftcard.com. Cyrhaeddodd ymgyrch Rhagfyr gynulleidfa o dros 750,000 ac rydym yn anelu at gyrraedd mwy gyda'n cynlluniau a'n syniadau arloesol eraill i annog y cyhoedd i wario'n lleol yn ystod y Gwanwyn yma.

DYLANWADOL

£500,000 DROS 5 MLYNEDD

BAND EANG CYFLYM IAWN AR GYFER CHWARTER Y CASTELL

Codwyd pryder gan aelodau ynglŷn â'r angen i gynyddu cyflymder band eang canol y ddinas a gwneud gwell defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf. Dyna pam mae TROS Caerdydd wedi gweithio mewn partneriaeth â BT Openreach i ddod â band eang cyflym iawn i Chwarter y Castell. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yng Ngwanwyn 2018 gan sicrhau y bydd busnesau yn yr ardal yn cael mynediad uniongyrchol i fand eang premiwm.

LLEIHAU COSTAU BUSNES

Rydym yn defnyddio grym torfol 700 o aelodau TROS Caerdydd i leihau gorbenion eich busnes. Mae'n gwasanaeth lleihau costau ar gael am ddim ac fe all arbed amser, costau ynni, costau telegyfathrebu, costau gwaredu sbwriel a llawer mwy.

Mae gennym gytundeb gydag arbenigwyr lleihau costau – 'Meercat Associates' sy'n gweithio gyda busnesau unigol i sicrhau'r fargen orau gan amrywiol ddarparwyr. Trwy gyd-weithio rydym yn gallu manteisio ar eu grŵp pryniant unigryw a'u grym torfol wrth brynu gan 10,000 o fusnesau ar draws 280 o AGB y DU.

Os oes diddordeb gennych fanteisio ar y cynnig nid oes unrhyw orfodaeth na thrafferth. Mae tîm 'Meercat' yn rheoli pob cyswllt gyda'r darparwyr gan arbed eich amser ac osgoi camgymeriadau costus. Maent yn sicrhau yr arbedion gorau ac na fyddwch byth yn methu eich dyddiadau adnewyddu. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim i aelodau TROS Caerdydd, ac ni chaiff unrhyw gomisiwn ei ennill - mae'r holl arbedion ariannol i chi.

PARCIO A THEITHIO GOSTYNGOL

Er mwyn lleihau traffig yn y ddinas a sicrhau bod cymudo'n fwy cyfforddus i staff a pherchenogion busnes rydym wedi ymuno â Bws Caerdydd i gynnig gostyngiad i'n haelodau ar gostau Gwasanaeth Parcio a Theithio Dwyrain Caerdydd. Mae'r tocyn gostyngol unigryw yma yn costio £450, llai na £2 y dydd ar gyfer parcio a theithio ar fysiau gan ryddhau llefydd parcio a hwyluso gyrru yn y ddinas.



HYFFORDDIANT AM DDIM

Dywedoch wrthym eich bod am i ni ddarparu hyfforddiant rhad ar gyfer ein haelodau. Mi aethom gam ymhellach a'i ddarparu AM DDIM! Ar ôl ymholi beth oedd eich anghenion fe gyflwynom raglen mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro. Cyflwynwyd cyrsiau Cymorth Cyntaf, Rheolaeth Cyllidol, Cadw Cyfrifon, darparu Gwefan a Gwerthiant. Mynychodd tros 100 o gyflogeion busnesau TROS Caerdydd y cyrsiau. Ar gyfartaledd fe arbedodd bob busnes £2,467.

Rydym yn awyddus i gyflwyno mwy o gyrsiau amrywiol i'r dyfodol. Os nad ydych yn gweld cwrs sy'n addas i chi neu'ch cyflogeion cysylltwch ac fe geisiwn ymateb i'ch angen.

YMRWYMIAD CAERDYDD

Gweledigaeth yw Ymrwymiad Caerdydd y bydd y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gysylltu pobl ifanc a'r ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael yn y byd gwaith. Mae TROS Caerdydd wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r bwrdd arweiniol strategol ac i gefnogi amrywiol fentrau hyrwyddo cyflogaeth yng nghanol y ddinas megis ysgrifennu CV, cyfweliadau ffug a chysylltu â busnesau lleol.

Os hoffai eich busnes wybod mwy neu ymrwymo i'r cynllun danfonwch e-bost i Ymrwymiad Caerdydd ar: CardiffCommitment@cardiff.gov.uk.

CYLLID

Mae TROS Caerdydd mewn sefyllfa ariannol cadarn ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y busnes. Mae lefi'r AGB, sef ein prif ffynhonnell incwm, yn cael ei gasglu, yn ôl y gyfraith, gan yr awdurdod lleol cyn ei drosglwyddo i'r AGB. Y gyfradd casglu ar gyfer Blwyddyn Un oedd 97% sef £1.722m o incwm. Mae hon yn gyfradd casglu eithriadol ac yn dystiolaeth o effeithlonrwydd y systemau sydd ar waith a'r gefnogaeth eang i TROS Caerdydd.

Mae gwariant rheolaeth a gorbenion Blwyddyn 1 yn cynrychioli 21.9% o incwm lefi Blwyddyn 1 sy'n unol â'n cynllun busnes. Mae'n werth nodi bod peth o'r gwariant hwn yn ymwneud â chostau sefydlu ac na fyddant yn cael eu hailadrodd.

I'r busnesau sydd am weld adlewyrchiadau manylach ac amserol o gyfrifon TROS Caerdydd bydd manylion ein cyfrifon blynyddol ar gael ar Dŷ'r Cwmnïau ac ar ein gwefan www.forcadiff.com/for-cardiff-business-downloads/

*Cyfrifon yn gywir ar XX Mawrth, 2018.

Mae TROS Caerdydd, yn cael ei ariannu trwy lefi'r AGB a gyfrifir fel 1% o werth ardrethol pob 'hereditament' yn ardal yr AGB. Mae hyn yn cynnwys 994 o adeiladau masnachol.

Mae'r ffigurau isod yn dangos dadansoddiad o gyllideb AGB, TROS Caerdydd yn ystod 16 mis y cyfnod 2016-2021. Sylwch fod y ffigurau hyn wedi'u llunio cyn diwedd Mawrth 2018 a bydd set lawn o gyfrifon rheoli am y cyfnod yn cael ei ddarparu gan ein cyfrifwyr Naunton Jones Le Masurier a byddant ar gael ym mis Mai 2018.

INCWM

Lefi AGB	£1,722,393
Incwm arall	£4,373
Cyfanswm Incwm	£1,726,766

GWARIANT

Croesawus	£413,387
Ffyniannus	£493,889
Dylanwadol	£36,756
Gorbenion	£378,599
Cyfanswm Gwariant	£1,550,366
Dygwyd ymlaen	£176,400

GWANWYN 2018 A THU HWNT

Wrth symud ymlaen i'n hail flwyddyn o weithredu nid ydym am orffwys ar ein rhwyfa ac mae gennym nifer o brosiectau newydd cyffrous ar y gweill. Byddwn yn parhau a'n prosiectau a'n mentrau presennol gan adeiladu ar ein llwyddiannau a parhau i chwilio am ffyrdd newydd i sicrhau bod canol y ddinas yn darparu amgylchedd bywiog a phroffidiol i'n haelodau.

CAERDYDD
AM BYTH

GWNEWCH Y GORAU
O'CH AELODAETH

info@forcardiff.com
forcardiff.com
02920314770

@FOR_Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff